YMGYRCHWYR BWYD A THANWYDD

Cyngor @ The hyb Ariannol

# Help gyda Chostau Byw

**Mae llawer o wahanol gynlluniau a allai eich helpu p'un a ydych yn derbyn budd-daliadau ai peidio.**

## Gadewch i ni eich helpu chi

Os oes **angen help** arnoch, neu eich bod eisiau gwybod mwy am y cynlluniau hyn neu'n cael trafferth fforddio eich biliau a chostau byw, ffoniwch y **Llinell Gyngor** ar 029 2087 1071, ewch i **www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk**, e-bostiwch hybcynghori@caerdydd.gov.uk neu ewch i'ch **Hyb lleol**, gweler www.hybiaucaerdydd.co.uk neu ffoniwch y Llinell Gyngor am amseroedd agor.

### Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru 2022-23

Bydd y cynllun hwn yn cefnogi'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau gan gynnwys Gostyngiad y Dreth Cyngor, Credyd Cynhwysol a Chredydau Treth, a budd-daliadau anabledd fel Taliadau Annibyniaeth Bersonol (TAB), Lwfans Gweini (LG) a Lwfans Gofalwr.

Os nad ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau cymhwyso, ond bod rhywun arall yn eich aelwyd yn derbyn budd-daliadau anabledd, mae'n bosib y byddwch yn gymwys i dderbyn y taliad.

Bydd un taliad o **£200** yn cael ei wneud i aelwydydd cymwys, gyda cheisiadau'n agor o **26 Medi 2022**, a thaliadau'n cael eu gwneud o fis Hydref ymlaen. Mae'r taliad hwn ar ben unrhyw gymorth arall y gallech fod â hawl iddo.

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Budd-daliadau-a-Grantiau/Effeithlonrwydd-ynni-a-thlodi-tanwydd/Cynllun-Cymorth-Tanwydd-y-Gaeaf/Pages/default.aspx. Rydyn ni hefyd yn cysylltu â phobl y credwn eu bod yn gymwys. Gallwch ffonio ein Llinell Gyngor ar 029 2087 1071 am fanylion neu gymorth i wneud cais.

### Cynlluniau Dewisol Costau Byw Caerdydd

Yn ogystal â'r gefnogaeth uchod, gall **Cyngor Caerdydd** hefyd gynnig cymorth i'r rhai sydd **wir ei chael hi'n anodd** talu eu rhent, ynni, a biliau eraill. Bydd yr achosion hyn yn cael eu penderfynu fesul achos, gan mai dim ond cyllid cyfyngedig sydd ar gael.

Cysylltwch â ni drwy'r Llinell Gyngor ar 029 2087 1071, ymwelwch â Hyb neu ewch i www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk i weld sut y gallem eich helpu

**Cynlluniau Llywodraeth Ganolog-** Os ydych yn gymwys i unrhyw un o'r rhain byddwch yn cael eich talu yn yr un ffordd ag y byddwch yn derbyn eich budd-daliadau ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei dalu'n **awtomatig - ni fydd** angen i chi wneud cais. Gweler www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy am gymhwysedd llawn a dyddiadau talu.

**Cynlluniau Llywodraeth Ganolog-** Os ydych yn gymwys i unrhyw un o'r rhain byddwch yn cael eich talu yn yr un ffordd ag y byddwch yn derbyn eich budd-daliadau ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei dalu'n **awtomatig - ni fydd** angen i chi wneud cais. Gweler www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy am gymhwysedd llawn a dyddiadau talu.

**Cynllun Costau Byw i'r rhai sydd ar Fudd-daliadau Incwm Isel a Chredydau Treth**
Bydd taliad o **£650** yn cael ei wneud mewn dau gyfandaliad, un ym mis Gorffennaf ac un ym mis Hydref os ydych yn derbyn:

- Credyd Cynhwysol
- Lwfans Ceisio Gwaith (Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh)
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith

Os ydych yn hawlio gyda phartner, mae'r taliad yn cael ei wneud rhyngoch chi, nid fesul un. Nid yw'r taliadau hyn ar gael os ydych chi'n derbyn y Lwfans Ceisio Gwaith Newydd neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd oni bai eich bod yn cael Credyd Cynhwysol hefyd.

**Taliad Costau Byw Anabledd-** Gallech gael taliad o **£150** ym mis Medi 2022 os ydych yn derbyn:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliadau Annibyniaeth Bersonol
- Taliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel
- Lwfans Gweini Cyson

Bydd hyn ar ben unrhyw gymorth arall y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn.

**Taliad Costau Byw Pensiynwr-** Os oes gennych hawl i Daliad Tanwydd y Gaeaf ar gyfer gaeaf 2022-2023, cewch **£300** ychwanegol ar gyfer eich aelwyd, a gaiff ei dalu ym mis Tachwedd 2022. Gweler www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment.cy am gymhwysedd llawn a dyddiadau talu. Bydd hyn yn cael ei dalu'n awtomatig i chi yn yr un ffordd ag y byddwch fel arfer yn cael eich budd-dal neu gredydau treth.

**Grant Gostyngiad Ynni £400-** Bydd **holl aelwydydd y DU** yn cael grant a fydd yn gostwng biliau ynni gan £400 o fis Hydref 2022. Bydd hyn yn cael ei wneud dros chwe mis, gyda gostyngiad o £66 ym mis Hydref a Thachwedd, a £67 bob mis rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023.
Bydd y gostyngiad yn cael ei wneud yn awtomatig gan gyflenwyr ynni. Nid oes angen gwneud cais.

Bydd yr arian yn cael ei gredydu i gyfrif cwsmeriaid debyd uniongyrchol a chredyd, a bydd yr arian yn cael ei gymhwyso i fesuryddion cwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu, neu'n cael ei dalu drwy daleb.